Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 22.03.2021

## Cynllun Rheoli'r Coronafeirws Llywodraeth Cymru wedi'w ddiweddaru

Dydd Gwener diwethaf, 19 Mawrth 2021, mi wnaeth Llywodraeth Cymru ryddhau diweddariad i'w Cynllun Rheoli'r Coronafeirws. I ddarllen y cynllun, ewch i:

https://bit.ly/3lEXHSg

Mae cerrig milltir i fusnesau yn cynnwys:

- O heddiw, 22 Mawrth 2021:
  Agoriad graddol cyntaf manwerthu nad yw'n hanfodol (codi'r cyfyngiadau ar gyfer y siopau hynny sydd ar agor ar hyn o bryd)
  Canolfannau garddio yn ailagor

- Dydd Sadwrn, 27 Mawrth 2021, os yw amodau'n caniatáu:
  Codi'r cyfyngiadau aros yn lleol, gan symud Cymru i Lefel Rhybudd 3
  Agoriad graddol cyntaf y sector dwristiaeth (llety gwyliau hunan-gynhwysol yn agor)

- O 12 Ebrill, os yw amodau'n caniatáu:
  Pob siop i agor
  Gwasanaethau cyswllt agos i agor

- Adolygiad 22 Ebrill 2021, os yw'r sefyllfa iechyd cyhoeddus yn parhau i fod yn gadarnhaol a bod cyfraddau brechu yn parhau i gynyddu:
  Campfeydd, cyfleusterau hamdden a ffitrwydd i agor
  Atyniadau awyr agored i agor
  Lletygarwch awyr agored i agor
  Caniateir priodasau
  Gweithgareddau wedi'u trefnu (30 yn yr awyr agored, 15 dan do) yn ailddechrau

## Cronfa Gymorth Brexit BBaChau gwerth £20 miliwn ar agor ar gyfer ceisiadau

Gallai Cronfa Gymorth Brexit BBaChau roi hyd at £2,000 i chi i helpu gyda hyfforddiant neu gyngor proffesiynol, os oes gan eich busnes hyd at 500 o weithwyr a dim mwy na £100 miliwn o drosiant blynyddol. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

http://bit.ly/3cYZayS

## Amserlen newydd ar gyfer prosesau rheoli ffiniau ar fewnforio nwyddau o'r UE

Mae Llywodraeth y DU wedi pennu amserlen newydd ar gyfer cyflwyno prosesau rheoli ffiniau mewnforio. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

http://bit.ly/3tJFFBj

# Arolwg Ar-Lein Cymru Iach ar Waith: Effeithiau’r pandemig Covid-19 ar iechyd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ar gyflogwyr a’u staff

Rhaglen Llywodraeth Gymru yw Cymru Iach ar Waith a ddarperir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i weithio gyda chyflogwyr i greu gweithleoedd iach ac i hybu iechyd da. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn awyddus i glywed gan ystod eang o sefydliadau yng Nghymru i ddeall effeithiau’r pandemig Covid-19 ar iechyd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ar gyflogwyr a’u staff. Mae’r arolwg dwyieithog ar agor hyd at 31 Mawrth 2021, ewch i:

https://www.opinionresearch.co.uk/PHWHWW

# Gweminar Gwydnwch Busnes ar gyfer Lletygarwch 25 Mawrth 2021

Bydd y gweminar am ddim Busnes Cymru yma ar gyfer busnesau bach a meicro yn y sector lletygarwch yng Ngogledd Cymru yn digwydd o 10:00am – 3:00pm ar 25 Mawrth 2021. Bydd sesiwn y bore yn edrych ar ddatblygu eich brand a’ch marchnata, gan ychwanegu gwerth drwy ddefnyddio’r iaith a diwylliant Cymraeg a chlywed gan fusnesau sydd wedi gwneud hynny yn barod. Bydd y sesiwn prynhawn yn edrych ar ddod a gweithwyr yn ôl, recriwtio gweithwyr newydd, rheoli contractau gweithle a goblygiadau AD ynglŷn â dychwelyd i’r gwaith. Byddant hefyd yn edrych ar ystyriaethau iechyd a diogelwch ymarferol ar gyfer gweithwyr a chleientiaid mewn amgylchedd newydd sy’n ddiogel o Covid, ac yn mynd i’r afael ag effaith iechyd meddwl ar weithwyr. Am fwy o wybodaeth ac i gofrestru, ewch i:

http://bit.ly/312L5Lz

# Gweminarau am ddim FSB

- Managing and Leading Your People Effectively: 24 Mawrth 2021, 10:30am – 11:45am
- Is your business your retirement plan?: 25 Mawrth 2021, 1:30pm – 2:30pm
- Why all businesses need to create video content: 26 Mawrth 2021, 12:30pm – 1:30pm

- Good Business Pays – improving late payments to get paid sooner: 26 Mawrth 2021, 12:30pm – 1:30pm

Am fwy o wybodaeth ac i gofrestru, ewch i:

http://bit.ly/3r6ZEbn

Cyfrif Twitter FSB Cymru:

https://twitter.com/FSB_Wales

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch
busnes@gwynedd.llyw.cymru